Dawn Bowden AS/MS
Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon, a'r Prif Chwip
Deputy Minister for Arts and Sport, and Chief Whip

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Delyth Jewell AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg,
Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol

01 Ebrill 2022

Annwyl Delyth,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 4 Mawrth 2022 ynglŷn â'r adolygiad o'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru, Senedd Cymru ac Ofcom a diolch ichi am gadarnhau nad oes gan y Pwyllgor unrhyw sylwadau ar gynnwys y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth.

Nodaf eich bod o'r farn y dylai rheoleiddwyr fod yn atebol i sefydliadau seneddol yn hytrach nag i lywodraeth. Rydym yn cytuno bod craffu seneddol yn hanfodol er mwyn dwyn rheoleiddwyr i gyfrif ac rydym yn cydnabod y rôl bwysig y mae'r Senedd yn ei chwarae wrth graffu ar waith Ofcom. Mae'r ymrwymiadau o ran rôl ymgynghorol ffurfiol i'r Senedd wrth bennu blaenoriaethau strategol Ofcom mewn perthynas â'i weithgareddau yng Nghymru, yr ymrwymiadau o ran cyflwyno adroddiad blynyddol a chyfrifon Ofcom i'r Senedd, ac o ran Ofcom yn adrodd ac yn ymddangos gerbron y Senedd, fel y nodir yn y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth, yn elfennau pwysig o'r craffu hwnnw.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd a Chadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith er gwybodaeth iddynt.

Yn gywir,

Dawn Bowden AS/MS
Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon, a'r Prif Chwip
Deputy Minister for Arts and Sport, and Chief Whip

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Dawn.Bowden@llyw.cymru
Correspondence.Dawn.Bowden@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.